WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwiliad 2010-11

Hydref 2011

**Awdur: PricewaterhouseCoopers ac Anthony Barrett** **Cyf: C11406**

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

## Cyngor Sir Ynys Môn

Mae ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol wedi'i gwblhau i raddau helaeth, ac o'n canfyddiadau hyd yma, ac yn amodol ar dderbyn set gyflawn o ddatganiadau ariannol diwygiedig, ein bwriad yw argymell i'r Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) y dylai gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 4 |
| **Adroddiad archwilio arfaethedig** | 5 |
| **Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad** | 5 |
| **Atodiadau** | |
| 1 - Llythyr Sylwadau Terfynol | 12 |
| 2 - Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyngor Sir Ynys Môn | 16 |
| 3 - Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt. | 17 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r datganiad perthnasol o gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'r staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Penodedig, Anthony Barrett, yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Paratowyd a chyflwynwyd yr adroddiad hwn gan PricewaterhouseCoopers LLP fel archwilydd wedi'i is-gontractio a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
2. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 ar 21 Gorffennaf 2011, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth yn amodol ar adolygiad terfynol o'r cyfrifon. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwy sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Swyddog Adran 151 dros dro.
3. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
4. Y lefel feintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yw £2 filiwn. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

## Cydnabyddiaethau

5. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu darpariaethau llawn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglwyd ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11.
6. Dylid nodi bod gweithredu IFRS yn cynrychioli newid sylfaenol o ran paratoi'r datganiadau ariannol. Yn unol â hynny, cafodd y broses o gyflwyno'r Cod sy'n seiliedig ar IFRS yn 2010/11 a'r angen yn sgîl hynny i ailddatgan ffigurau cymharol 2009/10 effaith sylweddol ar lwythi gwaith y sawl a oedd yn llunio cyfrifon cyrff llywodraeth leol, a'r sawl a oedd yn archwilio'r cyfrifon hynny.
7. Roedd y gofynion cyfrifyddu newydd yn her i bob awdurdod, ac roeddent yn galw am gryn dipyn o waith paratoi a chynllunio gyda swyddogion cyllid, swyddogion adnoddau dynol a swyddogion ystadau er mwyn gweithredu'r newidiadau'n llawn ac yn gywir. Er gwaethaf y problemau a gafwyd o ran amseroldeb y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol y cyfeirir atynt mewn man arall yn yr adroddiad hwn, roedd ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd i'w harchwilio, o ystyried y gofynion newydd a'r galwadau ar amser staff yn sgîl hynny, yn llawer gwell na'r flwyddyn flaenorol.

8. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch am y cymorth a roddwyd gan swyddogion y Cyngor yn ystod ein harchwiliad.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

9. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol, yn amodol ar ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill yn foddhaol a chynnal adolygiad terfynol o'r cyfrifon, unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

10. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

11. Yn ogystal â'r adroddiad archwilio mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig ardystio ar gyfer pob blwyddyn gyfrif fod yr archwiliad wedi'i gau pan fod yr holl waith archwilio wedi'i gwblhau. Ni chaewyd tystysgrif 2009/10 ar ddiwedd yr archwiliad o'r cyfrifon oherwydd yr ymchwiliad i honiadau o dwyll a llygredd mewn perthynas â grantiau adnewyddu tai. Ein bwriad yw dod i gasgliad ar y mater hwn er mwyn ardystio bod archwiliad 2009/10 wedi'i gau ar yr un pryd ag y cyhoeddir y dystysgrif ar gyfer cyfrifon 2010/11 yn dilyn eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

12. Mae'r Archwilydd Penodedig yn ystyried pa un a ddylid cyhoeddi adroddiad pellach er budd y cyhoedd mewn perthynas â methiant y Cyngor i fodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer llunio a chymeradwyo ei gyfrifon.

## Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

13. Nodwn isod y camddatganiadau a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda'r rheolwyr ond sy'n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro.  Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi'r rhesymau dros beidio â'u cywiro. Crynhoir y camddatganiadau nas cywirwyd isod:

| Natur y cywiriad arfaethedig | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau ôl-ofal mewn perthynas â safle tirlenwi Penhesgyn £825,000. | Pan gaiff amodau penodol eu bodloni, mae safonau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod rhwymedigaethau o'r fath wrth iddynt godi, yn hytrach na phan eir i wariant. |

### Camddatganiadau a gywirwyd

14. Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

15. Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. I grynhoi, mae ein canfyddiadau fel a ganlyn:

- **Mae gennym bryderon ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.** Cyfeiriwn mewn nifer o fannau yn yr adroddiad hwn at y gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer llunio'r cyfrifon a'r papurau gwaith ategol.
- **Daethom ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.** Ysgrifennodd swyddog Adran 151 y Cyngor atom ar 28 Mehefin 2011 i'n hysbysu y byddai'r holl bapurau gwaith sy'n ategu'r cyfrifon ar gael ar 1 Awst 2011. Cyfarfuom â swyddogion ar 1 Awst 2011. Bryd hynny, ychydig iawn o bapurau gwaith a gyflwynwyd i ategu'r Datganiad o Gyfrifon. Yna cyflwynwyd papurau gwaith yn ystod wythnosau diwethaf yr archwiliad gyda'r diweddaraf o'r rhain ar gael ar 8 Medi, dros bum wythnos ar ôl y dyddiad y cytunwyd arno. Byddwn yn trafod y ffioedd ychwanegol â'r rheolwyr ar ôl i'r archwiliad gael ei gwblhau.
- **Datgelwyd pob mater o bwys a drafodwyd â'r rheolwyr ac y gohebwyd â hwy yn ei gylch yn yr adroddiad hwn.**
- **Nodwyd tri gwendid sylweddol o ran eich rheolaethau mewnol.**
  - Yn ystod blwyddyn yr archwiliad, roedd cynlluniau rheoli risg wedi'u tanddatblygu'n sylweddol. Yn ôl safonau archwilio, mae diffyg cynlluniau o'r fath yn arwydd o ddiffyg sylweddol mewn rheolaeth fewnol.
  - Yn ail, canfuwyd diffyg trosolwg ffurfiol a diffyg adolygiad eilaidd â thystiolaeth o ran y papurau gwaith a oedd yn ymwneud â'r prisiad. Yn unol â hynny, nodwyd nifer o wallau yn y broses brisio. Roedd y gwall mwyaf yn wall perthnasol o fwy na £3.4m.
  - Yn olaf, mae'r gwaith cysoni diwedd blwyddyn ar gyfer ôl-ddyledion Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a Threth Gyngor yn cynnwys llinellau ar gyfer gwallau nas nodwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol, 2009/10, 2008/09 a chyn 2008. Er nad yw'r symiau dan sylw yn berthnasol (gwallau net nas nodwyd o £1k a £45k ar gyfer Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a Threth Gyngor yn y drefn honno), mae ymchwilio i eitemau cysoni a'u datrys yn broses reoli sylfaenol ac mae'n darparu sicrwydd o ran cywirdeb a chyflawnrwydd prosesau prosesu trafodion, a gall nodi gwendidau o ran prosesau a/neu reolaethau. Fel y cyfryw, dylid ymchwilio i'r gwallau a'u datrys cyn gynted â phosibl.
- **Mae yna faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.** Categoreiddiwyd y materion hyn a cheir eglurhad ohonynt isod. Yn ogystal, cyflwynir adroddiad sy'n amlygu gwendidau rheoli eraill, llai sylweddol, i'r rheolwyr.

## Risgiau archwilio sylweddol

16. Yn ein Strategaeth Archwilio Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Mae Arddangosyn 1 isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny.

**Arddangosyn 1 - Risgiau archwilio sylweddol**

| **Risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli** | **Canlyniad yr archwiliad** |
|---|---|
| Cafodd newidiadau yn y Tîm Cyllid effaith andwyol ar y broses o lunio cyfrifon y Cyngor yn 2009/10. Mae'r Cyngor wedi ceisio mynd ati i lenwi swyddi cyfrifyddu allweddol yn ystod 2010/11 er mwyn sicrhau bod arbenigedd a sefydlogrwydd yn cael eu cynnal wrth lunio cyfrifon 2010/11. Ar hyn o bryd fodd bynnag, staff dros dro sydd yn y swyddi hyn o hyd. Mae'n hanfodol bod adnoddau digonol a phriodol yn cael eu neilltuo i lunio'r cyfrifon statudol yn unol â'r amserlenni gofynnol. | Gwnaethom gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio drwy gydol y flwyddyn ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor, gan godi ein pryderon ynglŷn â gallu'r Cyngor i lunio cyfrifon drafft 2010/11 yn y fformat gofynnol erbyn 30 Mehefin 2011. Cyhoeddwyd y cyfrifon drafft ar wefan y Cyngor ar 21 Gorffennaf 2011 ac, yn ogystal, methwyd â chwrdd â'r terfyn amser statudol o 30 Medi 2011 ar gyfer cymeradwyo'r cyfrifon am yr ail flwyddyn yn olynol.<br>Mae'r problemau sylfaenol a welwyd yn 2009/10, sef systemau ariannol hen ffasiwn a diffyg staff parhaol mewn rolau cyfrifyddu allweddol, yn parhau ar adeg llunio'r adroddiad hwn. Cyflogodd y Cyngor staff asiantaeth i ymgymryd â'r gwaith a oedd yn ofynnol i gyflwyno'r cyfrifon a'r papurau gwaith i'w harchwilio. Mae'n amlwg nad yw'r datrysiad dros dro annigonol hon yn gynaliadwy.<br>Ystyrir bod methu â sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i lunio'r cyfrifon yn unol â'r amserlenni statudol yn fethiant difrifol o ran llywodraethu corfforaethol, ac mae'r Archwilydd Penodedig yn ystyried pa un a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â systemau ariannol** | **Canlyniad yr archwiliad** |
| Yn 2009/10, nodwyd nifer o ddiwygiadau yr oedd angen eu gwneud i'r cyfrifon o ganlyniad i wendidau yn nhrefniadau'r Cyngor mewn perthynas â rhoi cyfrif am drafodion cyfalaf. Bydd angen i gyfrifon 2010/11 roi cyfrif am effeithiau ailbrisio asedau sefydlog y Cyngor yn llawn. Bydd hyn yn galw am brosesu nifer o gofnodion cyfrifyddu cyfalaf ychwanegol. | Aethom ati i archwilio trafodion cyfalaf mewn modd cadarn, yn cynnwys gweithdrefnau dilysu ychwanegol o ran cywirdeb y gofrestr asedau sefydlog a gedwir ar daenlen a gwaith archwilio cadarn penodol ar y broses brisio a'r wybodaeth sylfaenol a'r tybiaethau a oedd yn sail i'r prisiad.<br>Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer llunio'r cyfrifon ac mewn ymateb i'r argymhelliad a wnaed gennym yn 2009/10, cynhaliwyd adolygiad manwl o gofnodion asedau sefydlog gan y rheolwyr. Nododd yr adolygiad manwl hwn nifer o faterion o ran y ffordd yr ymdriniwyd ag asedau sefydlog mewn blynyddoedd blaenorol a nifer o asedau a hepgorwyd yn anghywir o'r gofrestr asedau sefydlog. Diwygiwyd y cyfrifon ac effaith net yr addasiadau a wnaed yw £650k.<br>Nododd ein gwaith ar y prisiad llawn nifer o wallau yn y cyfrifiadau sylfaenol a ddiwygiwyd gan y rheolwyr yn y cyfrifon terfynol. Cyfanswm effaith yr addasiadau hyn yw £3.2m. |

| Risgiau sy'n ymwneud â pharatoi'r cyfrifon | Canlyniad yr archwiliad |
|---|---|
| Bydd y Cyngor yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf yn 2010/11. | Nodir canlyniad yr archwiliad mewn perthynas ag IFRS o dan y tabl hwn. |
| **Risgiau sy'n ymwneud â datganiadau ariannol** | **Canlyniad yr archwiliad** |
| Mae risg y gallai'r Cyngor fabwysiadu polisïau cyfrifyddu neu drin trafodion incwm a gwariant mewn ffordd sy'n arwain at gamddatganiad perthnasol yn y sefyllfa refeniw a nodir. | Gwnaethom ymgymryd â'r gweithdrefnau canlynol mewn ymateb i'r risg hon:<br>• profwyd rheolaethau allweddol i gadarnhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol;<br>• profwyd gwaith cysoni allweddol;<br>• profwyd incwm a gwariant nad yw'n safonol i sicrhau ei fod wedi'i gynnwys yn briodol yn y cyfrifon;<br>• profwyd bod trafodion sy'n digwydd tua diwedd y flwyddyn wedi'u dosbarthu'n briodol yn y flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi.<br>Gwnaethom ystyried y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd gan y Cyngor a chynhaliwyd y lefel briodol o brofion ar incwm a gwariant er mwyn canfod unrhyw gamddatganiad perthnasol.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw faterion y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Archwilio. |
| Mewn unrhyw sefydliad, gall rheolwyr fod mewn sefyllfa i anwybyddu'r rheolaethau ariannol sydd ar waith gennych. Gall y fath achos o dorri'r rheolaethau arwain at gamddatganiad perthnasol. | Gwnaethom ddeall a gwerthuso prosesau a gweithdrefnau rheoli mewnol fel rhan o'n gwaith cynllunio.<br>Gwnaethom adolygu priodoldeb y dyddlyfrau a broseswyd yn ystod y flwyddyn.<br>Gwnaethom hefyd edrych yn ofalus ar unrhyw amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr ac ystyriwyd a oedd unrhyw duedd yn perthyn iddynt.<br>Gwnaethom gynllunio a chyflawni gweithdrefnau mewn perthynas â'r rhesymeg busnes dros drafodion sylweddol.<br>Mae ein gweithdrefnau archwilio hefyd yn cynnwys elfen anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn.<br>Ni wnaethom nodi unrhyw faterion y dylid cyflwyno adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Archwilio. Nodir canlyniad ein gwaith mewn perthynas â'r amcangyfrifon a wnaed gan y rheolwyr o dan y tabl hwn. |

## Cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ('IFRS')

17. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu darpariaethau llawn IFRS fel y'u dehonglwyd ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-11. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad i baratoi mantolen agoriadol a ailddatganwyd

sy'n cydymffurfio ag IFRS ar 1 Ebrill 2009 ac i ailddatgan y wybodaeth gymaradwy ar gyfer 2009-10 ar sail IFRS.

18. Roedd hon yn her sylweddol i bob cyngor ac nid her i'r adran gyllid yn unig oedd hi gan fod y wybodaeth yr oedd ei hangen ar gyfer ailddatgan yn unol ag IFRS yn galw am fewnbwn swyddogion ystadau, swyddogion adnoddau dynol a swyddogion eraill. Er bod rheolwyr yn ymwybodol o'r gofynion ar gam cynnar, rydym o'r farn mai un o'r prif resymau i'r Cyngor fethu'r terfyn amser o 30 Mehefin 2011 ar gyfer llunio ei gyfrifon drafft oedd diffyg paratoi a chynllunio mewn perthynas â'r adnoddau yr oedd eu hangen. Nid oedd gan y Cyngor gynllun prosiect ac er i staff asiantaeth gael eu cyflogi i wneud y gwaith fe'u cyflogwyd yn rhy hwyr i wneud y gwaith a oedd yn ofynnol er mwyn i'r Cyngor fodloni'r terfyn amser.

19. Yn ystod yr archwiliad, rydym wedi trafod nifer o egwyddorion â Phennaeth yr Adran Gyllid a'i thîm. Mae nifer o'r addasiadau a wnaed i'r cyfrifon yn ymwneud â'r broses o newid i IFRS.

20. Yn ein hadroddiad blaenorol ar gyfrifon 2009-10, amlygwyd nifer o agweddau ar drefniadau'r Cyngor o ran cyfrifyddu ar gyfer Asedau Anghyfredol (sef Asedau Sefydlog gynt) y gellid eu gwella. Mewn ymateb i hyn, a chyda'r broses o gyflwyno IFRS yn gweithredu fel sbardun, gwnaed nifer o newidiadau i'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Yn eu plith mae'r canlynol:

- newidiadau sy'n deillio o adolygiad o'r ffordd y cymhwyswyd gofynion cyfrifyddu yn flaenorol,
- ailddatgan ffigurau i fodloni gofynion IFRS (mae'r rhain wedi'u hymgorffori hefyd yn y datgeliad ar wahân ar effaith gyffredinol IFRS).

O ganlyniad i effaith net yr addasiadau nad ydynt yn gysylltiedig ag IFRS ar y datganiadau ariannol, mae'r balans ar 1 Ebrill 2009 wedi cynyddu £650k a'r balans ar 1 Ebrill 2010 wedi cynyddu £2.6m.

## Amcangyfrifon arwyddocaol

21. Yn ystod ein harchwiliad gwnaethom ymgymryd â gweithdrefnau penodol mewn perthynas â meysydd sy'n destun risg o ran amcangyfrif.

### Prisiadau asedau sefydlog

22. Mae'r Cyngor wedi ailbrisio ei bortffolio asedau sefydlog cyfan fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2010 yn unol â'i bolisi cyfrifyddu o ailbrisio asedau bob pum mlynedd. Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar gadernid y cyfrifiadau a wnaed gan brisiwr mewnol cymwysedig y Cyngor a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad.

23. Yn ein profion ar y cyfrifiadau gwnaethom nodi nifer o wallau a ddiwygiwyd wedi hynny yn y cyfrifon. Nodir manylion y rhain yn Atodiad 3.

24. Mae'r Cyngor yn prisio ei stoc tai cyngor gan ddefnyddio'r dull 'Beacon'. O dan y dull hwn, dewisir eiddo 'nodweddiadol' ar gyfer haen o eiddo a chaiff pob haen ei phrisio ar sail gwybodaeth am y farchnad a gafwyd gan brisiwr mewnol cymwysedig y Cyngor.

25. Er mwyn adlewyrchu statws 'Tai Cymdeithasol' anheddau'r cyngor, o dan y dull prisio 'Beacon', dylid gwneud addasiad i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng gwerth

tai preifat a gwerth tai cymdeithasol. Mae gan denantiaid tai cymdeithasol gryn dipyn yn fwy o hawliau.

26. Nododd y Cyngor nad oedd unrhyw ddata ar gael o ran ffactorau addasu ar gyfer Cymru ar yr adeg y cynhaliwyd y prisiad. Felly dewisodd y Cyngor ranbarth cymharol, sef Swydd Efrog a Glannau Humber, gan gymhwyso'r ffactor hwnnw o 31%.

27. Fodd bynnag, lluniwyd papur ymchwil ym mis Ebrill 2011 gan DVS (arbenigwyr ym maes eiddo sector cyhoeddus) yn nodi ffactorau addasu ar gyfer rhanbarthau Cymru yn 2011. Nodwyd mai 39% oedd y ffactor addasu ar gyfer Gogledd a Gogledd-Ddwyrain Cymru. Nid oedd y papur ar gael i'r cyhoedd ar y pryd ac ni chafwyd y Cyngor ef nes mis Medi 2011, ac fel y cyfryw nid oedd ar gael ar adeg paratoi'r cyfrifon drafft.

28. Byddai hyd yn oed newid o 1% yn y ffactor addasu yn cael effaith berthnasol ar y cyfrifon. Felly, bu'r Cyngor yn ystyried pa un a oedd y ffactor addasu yn y papur ymchwil yn ffactor mwy addas i'w ddefnyddio a pha un a ddylid addasu'r cyfrifon yn unol â hynny. Effaith y gwahaniaeth rhwng 31% a 39% fyddai cynnydd o £28m yng ngwerth y stoc tai yn y cyfrifon.

29. Daeth y Cyngor i'r casgliad na fu'r papur ymchwil yn destun ymgynghori a dilysu digonol i allu dibynnu arno fel sail ar gyfer gwneud newid mor sylweddol i'r cyfrifon. Fodd bynnag, gwnaed datgeliad ychwanegol yn y cyfrifon er mwyn tynnu sylw'r darllenydd at fodolaeth y papur a allai arwain at newid sylweddol mewn prisiad yn y dyfodol. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn rhesymol.

**Darpariaeth cyflog cyfartal**

30. Yn 1997, llofnododd cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur y "Cytundeb Statws Sengl". Ymrwymodd y Cytundeb Statws Sengl, sy'n rhan annatod o ddeddfwriaeth cyflog cyfartal, awdurdodau i gynnal adolygiadau cyflog cyfartal ac i gyflwyno strwythurau cyflog anwahaniaethol, gan fynd i'r afael â'r ffaith bod cyflogeion llywodraeth leol yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol. Nododd yr adolygiad hwn rai elfennau o wahaniaethu ar sail cyflog ac o ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau ôl-gyflog i wneud iawn am hyn, yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

31. Bu'r Cyngor o'r farn ers nifer o flynyddoedd fod ei amlygiad i hawliadau cyflog cyfartal yn gyfyngedig oherwydd nad yw'r Cyngor yn cyflogi'r mathau o rolau sy'n dueddol o fod yn destun hawliadau cyflog cyfartal gan fod y Cyngor yn gosod y gwasanaethau hyn ar gontract allanol.

32. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi derbyn hawliadau cyflog cyfartal, a pharhaodd i'w derbyn yn 2010/11. Mae'r rheolwyr wedi asesu amlygiad posibl y Cyngor i hawliadau llwyddiannus er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth fel darpariaeth yn y cyfrifon.

33. Rydym wedi cynnal profion cadarn ar y cyfrifiadau a wnaed gan y rheolwyr ac wedi trafod lefel y ddarpariaeth gyda'r swyddog a151 dros dro. Diwygiwyd y cyfrifon er mwyn adlewyrchu lefel y ddarpariaeth y mae'r rheolwyr o'r farn sy'n briodol ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddynt hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon. Rydym o'r farn bod lefel y ddarpariaeth yn amcangyfrif rhesymol.

**Darpariaeth gwastraff**

34. Mae'r Cyngor wedi cadw darpariaeth o £2.1m yn y cyfrifon mewn perthynas â chostau ôl-ofal ar ran o safle gwastraff Penhesgyn a gapiwyd. Mae prisiad y ddarpariaeth hon yn deillio o asesiad amgylcheddol arbenigol a gynhaliwyd yn 2008. Mae'r asesiad amgylcheddol hwn yn amlygu costau ôl-ofal amcangyfrifedig ar gyfer gweddill y safle dros gyfnod o 30 mlynedd. Fodd bynnag, nid yw'r costau ychwanegol hyn wedi'u cynnwys fel darpariaeth yn y cyfrifon.

35. Mae'r amcangyfrif ar gyfer gweddill y safle wedi'i ddisodli'n rhannol gan y buddsoddiad cyfalaf a wnaed er mwyn echdynnu a gwerthu nwy a gynhyrchir gan ddadelfeniad y gwastraff. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i fynd i'r costau sy'n weddill ac felly dylid darparu ar eu cyfer yn y cyfrifon.

36. Dengys yr asesiad amgylcheddol arbenigol mai £825,000 yw'r rhwymedigaeth y mae'r Cyngor yn ymrwymedig iddi, ar ben y swm o £2.1m a ddarparwyd eisoes. Mae'r rheolwyr o'r farn bod darpariaeth ddigonol mewn cyllidebau refeniw i dalu'r costau hyn dros amser ac maent wedi penderfynu peidio â chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y swm hwn.

37. Rydym wedi cynnwys yr eitem hon fel camddatganiad nas cywirwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Archwilio.

ATODIAD 1

**DAVID ELIS-WILLIAMS** M.A.(Oxon),M.Sc., C.Stat., C.P.F.A.
**Cyfarwyddwr Corfforaethol(Cyllid)**
**Corporate Director (Finance**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
**ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**
**Swyddfa'r Sir**
**LLANGEFNI**
**Ynys Môn – Anglesey**
**LL77 7TW**

**Ffôn/Tel: 01248 752602 Ffacs/Fax 01248 752696**
**Gofynnwch am – Please ask for : Gill Lewis**

**E-Bost – E-mail : glxfi@anglesey.gov.uk**
**Ein Cyf – Our Ref. GL/ECJ**
**Eich Cyf – Your Ref**

# Llythyr Sylwadau Terfynol

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

PricewaterhouseCoopers LLP
Un Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3PW

Dyddiad : 8 Tachwedd 2011

# Sylwadau yn ymwneud â Datganiadau Ariannol 2010/11

Cyflwynir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2011.

Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn fy marn i, y gallaf wneud y sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau Rheolwyr

### Cyfrifoldebau:

Rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010-11; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a Roddir:

Rwyf wedi darparu'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rwyf yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennyf at ddiben yr archwiliad;
- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- canlyniadau fy asesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
- yr hyn a wn am dwyll neu dwyll a amheuir sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac sy'n ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll effeithio'n berthnasol ar y datganiadau ariannol.

- Yr hyn a wn am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol y rhoddwyd gwybod amdanynt gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- yr hyn a wn am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig yr wyf yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y Datganiadau Ariannol:

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a honiadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt ac fe'u datgelwyd yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan. Ceir crynodeb o'r eitemau hyn isod:

| Natur y cywiriad arfaethedig | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|
| Cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau ôl-ofal mewn perthynas â safle tirlenwi Penhesgyn £825,000. | Pan gaiff amodau penodol eu bodloni, mae safonau cyfrifyddu yn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod rhwymedigaethau o'r fath wrth iddynt godi, yn hytrach na phan eir i wariant. |

Yn ogystal, rwyf yn cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, ac ar ôl cynnal ymchwiliadau priodol, y sylwadau canlynol:

- Bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses o brisio'r asedau sefydlog yn briodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn;

- Bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad yr actiwari o'r cynllun pensiwn yn briodol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn;
- Bod yr amcangyfrif o werth y casgliad celf a gedwir yn Oriel Ynys Môn yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael i'r Cyngor.

## Sylwadau gan y Cyngor

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio ar 8 Tachwedd 2011.

Llofnodwyd gan:

**Gill Lewis**
**Swyddog Adran 151 Dros Dro**

Dyddiad:…………………………….

## Atodiad 2

### Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn a'r nodiadau cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2011 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar Falans y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

### Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Sir Ynys Môn a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Sir Ynys Môn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31ain Mawrth 2011 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Cyhoeddi adroddiadau archwilio ar wefannau**

Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am gynnal gwefan Cyngor Sir Ynys Môn a sicrhau cywirdeb y wefan honno; nid yw'r gwaith a gynhaliwyd gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiad o gyfrifon ers iddo gael ei roi ar y wefan yn gyntaf.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

## Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol gwerth dros £100,000 a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £485,702 | Lleihad mewn arian parod, dyledwyr a chredydwyr. | Cywiro balansau ysgolion sy'n arwain at orddatgan asedau a rhwymedigaethau (dim effaith net) |
| £3,480,000 | Lleihad ym mhrisiad asedau. | Cywiro gwall ar daenlen mewn perthynas â phrisiadau meysydd parcio. |
| £985,100 | Lleihad ym mhrisiad asedau. | Cywiro gwall mewn adroddiad prisio. |
| £605,200 | Lleihad ym mhrisiad asedau. | Cywiro mynegeion eiddo a ddefnyddiwyd yn y prisiad. |
| £2,321,550 | Cynnydd ym mhrisiad asedau. | Cywiro data ffynhonnell gwallus a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad. |
| £257,950 | Cynnydd ym mhrisiad asedau. | Cywiro data ffynhonnell gwallus a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad. |
| £694,000 | Lleihad ym mhrisiad asedau. | Cywiro gwall yn yr adroddiad prisio. |
| £4,628,000 | Lleihad yng ngwerth asedau nad ydynt yn asedau cyfredol | Taliadau cyfreithiol wedi'u cyfalafu yn anghywir. |

Noder: Y rhain yw'r addasiadau mwyaf sylweddol a gywirwyd. Gwnaed nifer o addasiadau llai perthnasol a gallwn ddarparu manylion pellach os oes angen.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk